

# amserbeibl

## Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
Luc 19: 1-10




ADNOD  
ALLWEDDOL  
Luc 19: 9

Gofynnwch am  
help i ddod o hyd  
i'r adnodau hyn.

### Stori 1 Sacheus

Roedd gan Sacheus waith pwysig iawn. Sacheus oedd prif gasglwr trethi Jericho. Mae hynny'n golygu ei fod yn gweithio i'r Rhufeiniaid, yn casglu arian oddi wrth bawb. Roedd y rhan fwyaf o gasglwyr trethi yn casglu gormod o arian ac yn cadw peth iddyn nhw eu hunain. Roedd Sacheus yn gwneud hyn weithiau.



**C** Ym mha dref oedd Sacheus yn byw?

J \_ \_ \_ \_ \_ .

**C** Beth oedd ei waith?

C \_ \_ \_ \_ \_ T \_ \_ \_ \_ \_ .

Roedd Sacheus wedi clywed am Iesu ac roedd eisiau ei weld. Ond dyn bach oedd Sacheus a doedd e ddim yn gallu gweld dros bennau'r dyrfa oedd wedi casglu i weld Iesu. Felly beth wnaeth e? Dringodd i ben coeden - sycamorwydden - a disgwyl i Iesu ddod ar hyd y ffordd! Mae'n siŵr ei fod wedi cael sioc pan stopiodd Iesu, edrych i fyny, a dweud "Sacheus, tyrd i lawr ar unwaith; mae'n rhaid i mi aros yn dy dŷ di heddiw."

**C** Rhowch (✓) neu (✗) yn y bylchau i ddangos a yw'r brawddegau isod yn GYWIR neu'n ANGHYWIR.

1. Roedd Sacheus yn ddyn tal iawn. ....
2. Roedd Sacheus eisiau gweld Iesu. ....
3. Dringodd Sacheus i ben derwen. ....
4. Roedd Iesu'n gwybod lle'r oedd Sacheus. ....

Daeth Sacheus i lawr o ben y goeden ar unwaith. Roedd wrth ei fodd o gael croesawu Iesu i'w dŷ. Roedd rhai o'r bobl yn grwgnach am fod Iesu'n mynd i dŷ dyn mor amhoblogaidd â chasglwr trethi! Ond roedd yn ddiwrnod bythgofiadwy i Sacheus! Yn ogystal â chroesawu Iesu i'w gartref, roedd wedi ei groesawu i'w galon ac i'w fywyd!

**Dywedodd Iesu wrtho,**

“Heddiw daeth  
iachawdwriaeth  
i'r tŷ hwn.”

**Lliwiwch y geiriau a'r llun. Luc 19.9**

6

Dywedodd Sacheus wrth Iesu y byddai'n byw bywyd da o hyn ymlaen.

Roedd ei hen fywyd wedi dod i ben. Byddai'n dilyn Iesu gan fyw bywyd onest a gofalu am bobl dlawd.

Roedd yn hapus iawn fod Iesu wedi'i achub o'i ffordd ddrwg o fyw!

Gall Iesu wneud yr un peth i ni. Dim ond Iesu sy'n gallu newid ein bywydau a'n gwneud ni'n barod i fynd i'r Nefoedd!!



**C Tanlinellwch y geiriau cywir sydd rhwng cromfachau.**

1. (Daeth / Ni ddaeth) Sacheus i lawr o ben y goeden pan alwodd Iesu arno.
2. Roedd Sacheus yn (hapus / ofnus / trist) pan ddaeth Iesu i'w gartref.
3. Roedd ei fywyd (yr un peth / yn well / yn waeth) ar ôl cwrdd â Iesu.

6



DARLLENWCH  
Ioan 3: 1-16



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Ioan 3: 16

Gofynnwch am  
help i ddod o hyd  
i'r adnodau hyn.

## Stori 2 Nicodemus


Fel Sachus, roedd Nicodemus eisiau cwrdd â Iesu. Roedd wedi clywed am ei wyrthiau ac roedd yn credu bod Iesu'n "athro oddi wrth Dduw". Roedd Nicodemus yn ddyn da oedd yn ceisio cadw holl reolau'r Iddewon. Roedd yn perthyn i grŵp o Iddewon oedd â rheolau caeth iawn. Yr enw arnynt oedd:



**C** Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob un o'r pethau isod i weld pwy oedd y bobl hyn.



4



Un noson aeth Nicodemus allan i chwilio am Iesu. Efallai ei fod yn meddwl y byddai'n haws siarad ag ef gyda'r nos pan fyddai'r tyrfaoedd wedi mynd adref. Neu efallai nad oedd eisiau i'r Phariseaid eraill ei weld gyda Iesu. Beth bynnag oedd y rheswm, y peth pwysig oedd ei fod wedi dod at Iesu.

Ydych CHI wedi dod at Iesu eto a gofyn iddo fod yn ffrind i chi?

Pan gwrddon nhw, cafodd Nicodemus sioc o glywed beth oedd gan Iesu i'w ddweud.


Dywedodd wrtho ei bod yn rhaid iddo gael ei eni eto cyn y gallai weld Teyrnas Dduw na mynd i mewn iddi. Doedd Nicodemus ddim yn deall yn iawn pan ddywedodd Iesu:-

“Rhaid i ti gael  
dy eni eto.”

5

Lliwchwch y geiriau. Ioan 3:7

Beth oedd Iesu'n ei olygu? Roedd yn ceisio dweud wrth Nicodemus y byddai'n rhaid iddo gael bywyd newydd cyn mynd i'r Nefoedd. Fel pawb, cafodd Nicodemus fywyd cyffredin pan gafodd ei eni yn fabi. Er mwyn mynd i'r Nefoedd, neu Deyrnas Dduw, byddai'n rhaid iddo gael ei "eni eto" neu ei "eni oddi uchod". Enw'r Beibl ar y math newydd hwn o fywyd yw "bywyd tragwyddol" neu "bywyd sy'n para am byth".



**C** Rhowch ✓ neu x yn y bylchau i ddangos a yw'r brawddegau isod yn **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR**.

- Daeth Nicodemus at Iesu yn y dydd. ....
- Roedd Nicodemus yn lldew da oedd yn cadw'r rheolau. ....
- Am ei fod yn ddyn da, doedd dim angen iddo gael ei eni eto. ....
- Mae cael eich "geni eto" yn golygu cael "bywyd tragwyddol". ....



Mae'r Adnod Allweddol yn dweud yn fyr beth ddywedodd Iesu wrth Nicodemus. Dywedodd Iesu: Gan fod Duw yn caru'n byd gymaint, rhoddodd ef ei fab. Os oes rhywun yn credu ynddo ef, bydd yn cael bywyd tragwyddol.



**C** Chwiliwch am yr Adnod Allweddol yn y Beibl – darllenwch hi a'i dysgu!

**C** Nawr llanwch y bylchau.

1. Roedd Duw yn caru'r \_\_\_\_\_.
2. Rhoddodd Duw \_\_\_\_\_.
3. Os ydych yn \_\_\_\_\_ yn Iesu...
4. ... byddwch yn cael \_\_\_\_\_.





DARLLENWCH  
Ioan 4: 4-30



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Ioan 4: 42

Gofynnwch am  
help i ddod o hyd  
i'r adnodau hyn.

### Stori 3 Gwraig o Samaria

Un diwrnod, roedd Iesu ar daith hir. Roedd yn mynd trwy ardal o'r enw Samaria.

Doedd pobl Samaria ddim yn ffrindiau â'r Iddewon. Doedden nhw ddim eisiau dim i'w wneud â'i gilydd. Roedd Iesu wedi blino ac eisteddodd ger ffynnon. Aeth ei ddisgyblion i dref gerllaw i brynu bwyd. Pan oedd yn eistedd, daeth gwraig â'i llestr dŵr i nôl dŵr o'r ffynnon.



#### C Atebwch y cwestiynau hyn.

1. Beth oedd enw'r ardal roedd Iesu'n mynd trwyddi?  
S \_\_\_\_\_.

2. I ble'r oedd y disgyblion wedi mynd?  
I'r \_\_\_\_\_.

3. Pwy ddaeth i nôl dŵr?  
\_\_\_\_\_.

“Ga i ddiod?” gofynnodd Iesu. Roedd y wraig wedi synnu bod Iesu'n gofyn iddi am ddiod gan mai Iddew oedd ef a'i bod hi'n dod o Samaria. Fel rheol, doedd yr Iddewon ddim hyd yn oed yn siarad â'r Samariaid! Roedd hi'n synnu hyd yn oed fwy pan ddywedodd Iesu y gallai ef roi “dŵr bywiol” iddi. Dywedodd na fyddai syched arni byth wedyn pe bai hi'n cael y “dŵr bywiol”. Beth oedd hynny'n ei feddwl?



## CROESAIR

Roedd Iesu wedi \_\_\_\_\_.


Roedd y disgyblion wedi mynd i brynu \_\_\_\_\_.

Eisteddodd Iesu wrth y \_\_\_\_\_.

Gofynnodd Iesu i'r wraig am rywbeth i'w \_\_\_\_\_.

I ddechrau, roedd hi'n meddwl

mai \_\_\_\_\_ cyffredin oedd e.



Iesu ei hunan yw'r "dŵr bywiol"! Roedd Iesu eisiau dweud wrth y wraig nad lldew cyffredin oedd ef. Esboniodd wrthi mai ef oedd y Meseia a'r Gwaredwr yr oedd Duw wedi'i addo. Pe bai'r wraig yn credu yn Iesu, byddai'n teimlo'n hollol fodlon. Yn yr ystyr hynny, ni fyddai syched arni eto.

5

“Pwy bynnag  
sy'n yfed  
o'r dŵr a roddaf fi iddo,  
ni bydd arno  
syched byth.”

Lliwiwch y geiriau. Ioan 4:14

Cyn hir, daeth y disgyblion yn ôl. Daeth sgwrs y wraig gyda Iesu i ben. Yn ei chalon, roedd hi'n credu mai Iesu oedd y Meseia, y Gwaredwr. Gadawodd y wraig ei llestr dŵr wrth y ffynnon a brysio i'r dref i ddweud wrth bobl am Iesu. “Dewch”, meddai “i weld dyn a ddywedodd wrthyf bopeth yr wyf wedi'i wneud. A yw'n bosibl mai hwn yw'r Meseia?”

Daeth llawer o bobl i gwrdd â Iesu. Yn bwysicach, credodd llawer o bobl ynddo go iawn. Dyna beth y dylai pawb ohonom ei wneud - credu yn Iesu a dweud wrth bobl eraill amdano.

**C** Rhowch (✓) neu (✗) yn y bylchau i ddangos a yw'r brawddegau isod yn **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR**.

1. Credodd y wraig o Samaria yn Iesu. ....
2. Ddywedodd hi ddim wrth neb amdano. ....
3. Llanwodd ei llestr a mynd adre'n syth. ....
4. Dywedodd wrth lawer o bobl am Iesu a daethon nhw i'w weld. ....

4



DARLLENWCH  
Marc 10: 17-23



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Marc 10: 21

Gofynnwch am  
help i ddod o hyd  
i'r adnodau hyn.

## Stori 4 Dyn ifanc cyfoethog

Un diwrnod, roedd Iesu a'i ddisgyblion yn cerdded ar hyd y ffordd pan redodd dyn ifanc atynt. Penliniodd o flaen Iesu a gofyn "Beth y mae'n rhaid i mi ei wneud i gael bywyd tragwyddol?"

### C Llanwch y bylchau gan ddefnyddio geiriau o'r paragraff uchod.

1. Roedd y dyn ifanc yn awyddus iawn i wybod achos \_\_\_\_\_ at Iesu.
2. Roedd eisiau dangos parch at Iesu oherwydd \_\_\_\_\_ o'i flaen.
3. Roedd eisiau gwybod sut i gael \_\_\_\_\_



Atebodd Iesu ef a'i atgoffa am rai o reolau Duw. Weithiau rydyn ni'n galw'r rhain yn "Ddeg Gorchymyn". Mae'r pedwar cyntaf yn ein dysgu sut i feddwl am Dduw ac mae'r lleill yn ein dysgu sut i drin pobl eraill.

### C Dyma dri gorchymyn.

Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir.

1. Paid â **addll** neb.

\_\_\_\_\_ .

2. Paid â **tarallda**

\_\_\_\_\_ .

3. Parcha dy **add**

\_\_\_\_\_

a dy **maf**

\_\_\_\_\_ .

1. Paid ag addoli unrhyw dduw heblaw amdanaf i.

2. Paid ag addoli eilunod.

3. Paid â defnyddio fy enw i mewn ffordd ddrwg.

4. Cadw'r dydd Saboth yn sanctaidd.

5. Parcha dy dad a dy fam.

6. Paid â lladd.

7. Paid â godinebu.

8. Paid â lladrata.

9. Paid â rhoi bai ar neb ar gam.

10. Paid â bod yn genfigennus o bobl eraill.

Roedd y dyn ifanc yn gwybod y rheolau hyn i gyd! Yn wir, dywedodd wrth Iesu ei fod wedi cadw pob un ohonynt er pan oedd yn fachgen bach. Ond a oedd e wedi'u cadw GO IAWN? Rhoddodd Iesu brawf arno trwy ddweud:-

“DOS, gwertha bopeth  
sydd gennyt ... rho i'r tlodion ...  
tyrd ... coda'r groes a dilyn  
fi.”

6



**Marc 10: 21**

**Lliwiwch y geiriau a'r llun.**

Pan glywodd hynny, roedd yn drist iawn achos roedd yn gyfoethog iawn. Roedd yn caru'r pethau oedd ganddo yn fwy na dim byd arall! Doedd e ddim yn gallu meddwl am roi ei arian i bobl dlawd! Doedd e ddim yn fodlon rhoi'r LLE CYNTAF yn ei fywyd i Iesu. Aeth i ffwrdd yn drist. Dyna drueni nad oedd dyn ifanc mor frwd yn barod i ddilyn Iesu!

Beth amdanoch chi? Oes rhywbeth yn eich bywyd chi sy'n bwysicach na Iesu?

**C Dewiswch y gair cywir yn y cromfachau a'i danlinellu.**

1. Roedd y dyn ifanc yn (dlawd / gyfoethog) iawn.
2. Ar ôl siarad â Iesu, aeth i ffwrdd yn (drist / hapus / syn).
3. Roedd arian yn (fwy / llai) pwysig iddo na dilyn Iesu.

6

**cyfanswm**

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

---

---

---

---

---

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 2 C3

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)  
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120